



### 1. Coch y berllan

Aderyn trwm sydd braidd yn swrth. Crwmp mawr gwyn, du yw ei adenydd a'i gynffon. Llinell wen lydan ar draws ei adain pan mae wedi cau. Cap a bib y ceiliog yn ddu, ei gefn yn llwyd, ei fron a'i fol yn goch. Llwydfrown yw cefn yr iâr a'i bron yn frown golau.



**4. Ysguthan** Colomen fawr hardd, gydag adenydd a chynffon hir, corff llydan trwm, a phen bach crwn. Pen llwydglas, cefn llwyd a chrwmp golau. Ynghanol ei chynffon mae darn golau a'r blaen yn ddu. Ei bron yn binc tywyll a darn gwyn llydan ar ei gwddf a'i gwar yn wyrdd.




### 2. Bronfraith

Aderyn bychan, brith, golau sy'n byw mewn coedwigoedd, caeau a gerddi, ac yn hedfan yn isel. Cefn brown plaen, patrwm gwan ar yr wyneb. Plu gwyn ar y bol, mae ei fron yn felyn a smotiau bach tywyll, a'r ystlys yn fwy brown.

yn felyn a smotiau bach tywyll, a'r ystlys yn fwy brown.

**5. Pioden** Aderyn cyffredin mewn caeau a gerddi, ac mewn mannau eraill. O bell, ymddengys y plu yn ddu a gwyn, gyda chynffon hir. Ei phen yn ddu, ei chefn a'i bron. Ei hysgwyddau a'i bol yn wyn. Yr adenydd yn loywas, ond, o'u lledu, mae'r pennau'n wyn.



### 3. Turtur dorchog

Colomen gyffredin olau, hefo cynffon hir. Pen bach llwydglas neu oren binc, gyda choler ddu denau ar yr aderyn llawn dwf. Ei chorff yn llwydfrown golau

a phen ei hadain yn ddu, a phanel llwyglas ar ganol ei hadain. Ei llygaid yn dywyll a'i chynffon dywyll yn fain. Pan fo'n hedfan, bydd ei hadenydd yn siâp bwa. Erbyn hyn, mae'n aderyn cyffredin yn ein gerddi.

### 6. Llwyd y gwrych

Aderyn bychan swil sy'n cropian o gwmpas y geddi. Streipiau brown a du ar ei gefn, ystlys orenfrown a stribynnau brown. Siâp tebyg i Robin goch ond yn crwmanu wrth fwydo. Pan yn canu ar gangen, mae'n dalsyth. Enwau



Pryd?

Ble?

Pwynt

1 \_\_\_\_\_ 20  
2 \_\_\_\_\_ 20  
3 \_\_\_\_\_ 15

Pryd?

Ble?

Pwynt

4 \_\_\_\_\_ 15  
5 \_\_\_\_\_ 10  
6 \_\_\_\_\_ 30